Cerddorfa

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Bethan Thomas, Rhian Williams a James Read ar gael eu dewis i fod yn aelodau o Gerddorfa'r Sir. Pob hwyl i'r tri ohonoch wrth y gwaith.

Crysau chwys

Mae crysau chwys arbennig i'r ysgol ar werth erbyn hyn ac os ydych yn dymuno archebu rhai i'ch plant, trowch i mewn i gael cip arnynt yn yr ysgol.

Gwersyll Llangrannog

Bu rhai o'r plant hynaf yn bwrw'r Sul yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog ddechrau mis Ebrill a chael hwyl go iawn yno yng nghwmni plant eraill.

Eisteddfod Penrhyn-coch

Hyfryd oedd gweld nifer o'r plant yn cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod ar Ebrill 11eg. Bu rhai ohonynt yn llwyddiannus ac ennill gwobrau ond gwnaeth pob un ei orau gan gystadlu yn y naws orau posibl - llawn hwyl a brwdfrydedd heb boeni am y dyfarniad terfynol. Da iawn chi bob un.